**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**22ain Medi 2008**

**Rhagofalon Cyllideb ar gyfer 2009/10**

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Mae'r papur hwn yn gyfle cynnar i sefydlu'r pwysau cyllideb arwyddocaol ar gyfer 2009/10 a thu hwnt. Nid yw'n bosib meintoli'r holl bwysau hyn ar hyn o bryd, ond lle mae'n bosib, mae'r rhain wedi cael eu cynnwys i gynhyrchu cyllideb ddynodol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Cefndir

**2.** Er mwyn cynorthwyo proses osod cyllideb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'r papur yn rhestru'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Gwasanaethau'r flwyddyn nesaf. Mae'n crynhoi achosion y pwysau hynny ac yn dynodi i ba raddau maen nhw'n rhai dewisol.

**3.** Y man cychwyn yw'r gyllideb refeniw ar gyfer 2008/09 sy'n £30.338 miliwn. Fe ddylai Aelodau fod yn ymwybodol mai cyllideb safiad stond oedd hwn, oedd yn cwrdd â'r dyfarniadau cyflog blynyddol ac yn cynnwys arian ar gyfer y pwysau hynny nad oedd modd eu hosgoi gan gynnwys talu am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaol a chyfraniad y cyflogwr i gynllun Pensiwn Newydd y System Dyletswydd Rhan Amser. Nid oedd yn cynnwys unrhyw arian ychwanegol i waith diogelwch cymunedol

i gynorthwyo wrth gyflawni nod yr awdurdod o 30,000 o archwiliadau diogelwch tân y flwyddyn.

**4.** Er mwyn cyfyngu'r cynnydd ar gyllideb 2007/08 i 2.99%, gwnaed arbedion o £192,000 o fewn cyflenwadau a gwasanaethau'r llynedd ac fe gymerwyd £192,490 pellach o'r darpariaethau. Mae'r £192,490 yma wedi cael ei ychwanegu i gyllideb 2009/10 cyn unrhyw gynyddiadau eraill.

**5.** Os fyddai'r costau hysbys restrwyd isod yn rhan o gyllideb 2009/10 yn unig, byddai angen cyllideb o £32,003 miliwn fyddai'n gynnydd o 5.49%. Rhaid ystyried hyn yng ngholau'r Grant Cefnogi Refeniw allai fod oddeutu 2%.

## 6. Pwysau Ariannol

| **Pwysau** | **Disgrifiad** | **Gyrrwr** | **Cost 09/10 £'000** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Tanategu** | **Un taliad a gymerwyd o'r darpariaethau yn 2008/09 sydd angen er roi yn ôl yn 09/10.** | **Tanategu'r gyllideb bresennol** | **192** |
| **Dyfarniadau cyflog** | **Does yr un fformiwla dalu wedi ei phennu i weithwyr. Mae cyfarwyddeb gan y llywodraeth yn dweud dylai daliadau cyflog gael eu cyfyngu i 2% ond oherwydd ceisiadau cyflog oherwydd yr hinsawdd economaidd sy'n daladwy fis Gorffennaf 09, efallai byddant yn 3% neu uwch.** | **Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol** | **450** |
| **Parhad Gwasanaeth** | **Parhad yn erbyn ymyrraeth ddifrifol i'r Gwasanaeth oherwydd ymyriad na chynlluniwyd ar ei gyfer i wasanaethau rheng flaen** | **Yn ddibynnol ar benderfyniad yr Awdurdod** | **179** |
| **Firelink** | **Costau refeniw sy'n gysylltiedig gyda'r system gyfathrebu radio newydd** | **Efallai bydd Llywodraeth** | **350** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **sydd i'ch chyflwyno ym mis Medi 09 (6 mis)** | **Cynulliad Cymru yn gyfrifol am hyn yn rhannol neu'n gyfan yn y flwyddyn gyntaf** | |
| **Y Dimensiwn Newydd / Gallu Tymor Hir** | **Y bwriad i drosglwyddo'r asedion a'r cyfrifoldebau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Wasanaethau Tân ac Achub unigol** | **Polisi cenedlaethol** | **?** |
| **Cynnydd mewn gwaith Diogelwch Cymunedol** | **Wedi derbyn profiad pellach, rydym ni wedi ail-werthuso'r angen i gyflwyno systemau busnes ac ariannu'r staff a'r offer sydd eu hangen i gyflwyno 30,000 o archwiliadau diogelwch tân bob blwyddyn.** | **Cynllun Lleihau Risg ac argymhelliad gan weithgor y Prif Swyddog** | **400** |
| **Prosiect Gwisgoedd Integredig** | **Cytundeb cenedlaethol ar gyfer offer gwarchod personol wedi ei reoli'n llawn.** | **Mae costau atgyweirio offer gwarchod personol presennol yn adlewyrchu oedran yr offer ac mae rhaid dechrau ailosod hyn** | **?** |
| **Gwerthuso Swyddi** | **Mae'r Gwasanaeth yn gwerthuso holl swyddi'r gweithwyr ar amodau'r Llyfr Gwyrdd ar hyn o bryd. Cytunwyd y bydd cyflog y rhai sy'n disgyn yn cael ei amddiffyn am 3 blynedd a bydd angen ariannu swyddi sy'n codi.** | **Cytunwyd ar yr amddiffyniad cyflog gyda'r cyrff cynrychioli. Efallai bydd aelodau yn dymuno** | **?** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **trafod cyfyngiadau ar gynyddiadau.** | |
| **Cost Tanwydd** | **Mae cost tanwydd yn cynyddu'n gyflym ac yn effeithio chwyddiant cyffredinol** | **Pwysau chwyddiant byd-eang.** | **95** |

## 7. Argymhelliad

Fod aelodau yn nodi'r pwysau uchod ac yn dynodi pa wybodaeth bellach hoffent dderbyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.